| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Y Cabinet |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 25 Medi 2018 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Y Cynghorydd Mark Young |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Catrin Roberts / Andrea Malam |
| **Teitl:** | **Polisïau Cyflogaeth** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

**Mae chwe pholisi cyflogaeth wedi cael eu hargymell i'r Cabinet i'w mabwysiadu gan y pwyllgor CBYLL.** Mae'r polisïau wedi'u rhestru isod:

- Polisi Amser o'r Gwaith (Wedi cyfuno holl bolisïau sydd yn cynnwys amser i ffwrdd)
- Polisi Rhianta (Wedi cyfuno polisi mamolaeth, tadolaeth, mabwysiadu, rhieni ac absenoldeb rhiant a rennir)
- Polisi Apeliadau Corfforaethol (polisi diwygiedig)
- Disgresiwn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Pholisi Bandio (polisi diwygiedig)
- Polisi Ar alw, Galw allan a Chysgu (diwygiedig)
- Polisi mynd â Data Personol oddi ar Eiddo Cyngor Sir Ddinbych (Newydd)

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I gael cymeradwyaeth gan y Cabinet i fabwysiadu'r polisïau a restrwyd uchod.

## 3. Beth yw'r argymhellion?

Yr argymhellion yw bod y Cabinet yn cymeradwyo'r polisïau a restrwyd uchod i'w mabwysiadu o fewn y Cyngor.

3.1 Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les fel rhan o'i ystyriaeth.

## 4. Manylion yr Adroddiad

<u>Polisi Amser o'r Gwaith</u>

Mae'r polisi hwn yn gyfuniad o'r holl bolisïau sy'n berthnasol i unrhyw fath o amser i ffwrdd o'r gwaith. Mae'r polisi hefyd wedi ei ailfformatio i fformat dogfen fach, gyda swyddogaethau a chyfrifoldebau, terfynau amser a siart llif i'w defnyddio yn cael ei gynnwys yn awr.

Mae'r testun mewn coch yn nodi'r newidiadau arfaethedig gan AD er mwyn cadarnhau'r broses neu gysoni gyda newidiadau mewn deddfwriaeth. Mae'r testun wedi'i amlygu mewn gwyrdd yn nodi'r newidiadau a wnaethpwyd ar ôl y Cyd Gyfarfod

Corfforaethol gyda Chynrychiolwyr Undeb Llafur a chyfathrebu ar e-bost gyda'r Cyd Gyfarfod Corfforaethol.

Absenoldeb tosturiol (adran 5) ac absenoldeb Gofalwyr (adran 3) yn cael ei adolygu ar hyn o bryd fel rhan o'r Polisi 'rheoli Gofalwyr', felly mae geiriad y polisi gwreiddiol wedi'i fewnosod. Unwaith mae'r Polisi Anghenion Gofalwyr wedi cael ei drafod a'i gytuno arno yn y dyfodol agos bydd y geiriad yn y polisi hwn yn cael ei ddiwygio i gyd-fynd â hynny.

Polisi Rhianta

Mae'r polisi hwn yn gyfuniad o'r holl bolisïau sy'n berthnasol â mamolaeth, tadolaeth, mabwysiadu, rhianta a chyflwyniad o absenoldeb rhiant a rennir. Mae'r polisi hefyd wedi ei ailfformatio i fformat dogfen fach, gyda swyddogaethau a chyfrifoldebau, terfynau amser a siart llif i'w defnyddio yn cael ei gynnwys yn awr.

Mae'r testun mewn coch yn nodi'r newidiadau arfaethedig gan AD er mwyn cadarnhau'r broses neu gysoni gyda newidiadau mewn deddfwriaeth. Mae'r testun wedi'i amlygu mewn gwyrdd yn nodi'r newidiadau a wnaethpwyd ar ôl y Cyd Gyfarfod Corfforaethol gyda Chynrychiolwyr Undeb Llafur a chyfathrebu ar e-bost gyda'r Cyd Gyfarfod Corfforaethol.

Polisi Apêl Corfforaethol

Diwygiwyd y polisi i gynnwys yr holl resymau ar gyfer apêl. Mae'r polisi yn awr yn cynnwys y broses o apelio dan y Polisi Disgyblaeth a'r Polisi Presenoldeb yn y Gwaith. Cytunwyd ar eiriad penodol o ran cofnodi cyfarfodydd gyda'r undebau, ac fe gawsant eu mewnosod i'r polisi.

Mae'r polisi yn cadarnhau pan all weithiwr apelio a chynnwys swyddogaethau, cyfrifoldebau a therfynau amser apêl ac unrhyw gyfarfodydd apêl.

Disgresiwn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Pholisi Bandio

Gofynnwyd am eglurhad o fewn y polisi ynglŷn â rhyddhau pensiwn yn gynnar ar sail dosturiol ac ond yn berthnasol os nad oedd cost i'r cyngor. Mae'r polisi bellach wedi ei ddiwygio i adlewyrchu'r uchod.

Yn ogystal, ers cyflwyno'r CBYLL, mae Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Diwygiad) 2018 wedi cael ei ryddhau ym mis Mai 2018 gan arwain at newidiadau ychwanegol yn y polisi. Amlygir y diwygiadau hyn o fewn y polisi.

Polisi Ar alw, Galw allan a Chysgu

Mae diwygiadau wedi eu gwneud i dudalen 14 yn unol â'r trafodaethau cynnal a chadw SB7 yn ystod y gaeaf a gytunwyd arnynt gyda'r undebau llafur. Mae SB7 wedi cael eu gweithredu o 1 Tachwedd 2017.

Polisi Mynd Â Data Personol Oddi Ar Eiddo Cyngor Sir Ddinbych

Efallai y bydd angen i Swyddogion Cyngor Sir Ddinbych (CSDd) fynd â data personol allan o'r swyddfa. Diben y polisi hwn yw nodi'r camau y mae'n rhaid i swyddogion eu dilyn wrth fynd â data personol oddi ar y safle, er enghraifft i gynnal ymweliadau yn y cartref, mynd i gyfarfodydd, paneli neu'r llys, neu weithio gartref. Bydd dilyn y polisi hwn o gymorth i leihau'r risg o dorri diogelwch yn ymwneud â data personol ac unrhyw ddirwy ddilynol.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Bydd pob un o'r polisïau uchod yn cynorthwyo'r Blaenoriaethau Corfforaethol drwy sicrhau bod rheolwyr a gweithwyr yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau yn unol â deddfwriaeth ac arfer da.

**Cymunedau Cryf - Diogelu data personol o'r pwys mwyaf wrth gefnogi cymunedau a phobl ddiamddiffyn.**

**Clymu Cymunedau - Mae'r polisïau cysylltiedig yn cael eu rhoi ar wefan Sir Ddinbych fel bod gweithwyr a chymunedau yn gallu cael mynediad o gyfrifiaduron, gliniaduron, ipads/tabledi/ffonau clyfar eu hunain, neu o fewn llyfrgell gyhoeddus.**

Pobl Ifanc – Mynediad i bolisïau trwy wefan Sir Ddinbych o bosib yn atynnu gweithwyr iau i weithio i'r cyngor, polisïau Amser i ffwrdd o'r Gwaith a Rhianta yn annog balans gwaith a bywyd a gallu cael seibiant gyrfa i deithio, cael teuluoedd a dal i weithio ac ati. Mae hyn yn hyrwyddo Sir Ddinbych fel cyflogwr cyfeillgar i deuluoedd.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**
***Nodiadau adran: Dylid meddwl am y meysydd canlynol o leiaf wrth ddrafftio'r adroddiad:***

Nid oes angen adnoddau ychwanegol, felly ni fydd unrhyw gostau ynghlwm wrth weithredu'r polisïau hyn. Ni fydd unrhyw effaith benodol ar adran arbennig. Bydd y gweithdrefnau a pholisïau yn berthnasol i bob aelod o staff (lle nodir).

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb?**

Gweler yr Asesiadau o Effaith ar Les ynghlwm. Mae'r holl bolisïau wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn yn berthnasol i holl weithwyr beth bynnag yw'r nodweddion gwarchodedig, a bydd yn cael ei ddefnyddio yn unol â deddfwriaeth a thelerau ac amodau cyflogaeth.

Mae'r Polisi Rhianta a'r Polisi Amser i Ffwrdd o'r Gwaith wedi cael eu hasesu ar gyfer effaith ar les fel rhan o grŵp/teulu o bolisïau. Mae gan y ddau bolisi effaith gadarnhaol ar y staff hynny sydd â chyfrifoldebau gofalu. Mae canlyniadau eraill wedi'u nodi yn gyffredinol i fod yn bositif ac yn niwtral.

Mae'r Polisi Apeliadau Corfforaethol yn galluogi dull teg a chyson ar gyfer apelio yn erbyn proses. Cadarnhaodd yr asesiad o effaith ar les nad oedd unrhyw effeithiau negyddol yn gysylltiedig â'r polisi.

Mae’r Polisi Taliadau yn ôl Disgresiwn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a’r Polisi Amser i Ffwrdd o’r Gwaith wedi cael eu hasesu ar gyfer effaith ar les fel rhan o grŵp/teulu o bolisïau. Ar y cyfan, ystyrir y ddau bolisi i gael effaith positif a niwtral.

Mae Polisi mynd â Data Personol oddi ar Eiddo CSDd ar y cyfan wedi cael effaith niwtral ar les. **Mae’r asesiad effaith wedi tynnu sylw mai risg isel ar y cyfan sydd i wybodaeth bersonol/sensitif i gael ei golli neu fynd ar goll.**

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

Mae’r Polisi Amser i Ffwrdd o’r Gwaith a’r Polisi Rhianta wedi eu trafod yn y Cyfarfod Corfforaethol ar y Cyd yn Ionawr 2017 a chytunwyd bod copïau yn cael eu hanfon ar e-bost i’r holl Gynrychiolwyr Undeb Llafur sydd yn rhan o’r CCC am sylwadau terfynol. Anfonwyd polisïau ar e-bost i CCC yn barod am y CCC ar 7 Mehefin a ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau ar e-bost. Cafodd y polisïau eu hanfon ar e-bost ym mis Tachwedd 2017 ac unwaith eto yn Ebrill 2018 gydag adborth gan undebau llafur wedi'i gynnwys yn y polisïau a newidiadau yn cael eu cadw ar gofnod.

**Mae Polisi Taliadau yn ôl Disgresiwn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, Polisi Ar alw, Galw allan a Chysgu a Pholisi mynd â Data Personol oddi ar Eiddo Cyngor Sir Ddinbych wedi eu hanfon ar e-bost i CCC i wneud sylwadau yn Ebrill 2018. Dim sylwadau wedi'u derbyn gan yr undebau llafur mewn perthynas â'r tri pholisi.**

Mae’r holl bolisïau wedi’u cynnwys yn yr adroddiad hwn wedi’u cyflwyno i'r CBYLL ar 18 Mehefin 2018 a’r cytundeb oedd eu bod yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet. Er nad oedd digon o aelodau yn bresennol i wneud cworwm (un Cynrychiolydd Undeb Llafur ddim yn bresennol) yn y cyfarfod CBYLL, derbyniwyd caniatâd ysgrifenedig gan yr union Gynrychiolydd Undeb Llafur hynny i gyflwyno’r holl bolisïau i’r Cabinet.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Amherthnasol.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae'r risgiau yn gysylltiedig â pheidio â gweithredu'r polisïau ynghlwm yn unig. Mae’r fersiynau cyfredol o’r polisïau wedi dyddio o ran deddfwriaeth ac mae angen cadarnhad er mwyn sicrhau bod prosesau yn cael eu defnyddio’n gywir ac yn gyson gan reolwyr ac AD.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Pŵer i wneud y penderfyniad yw a112 Deddf Llywodraeth Leol 1972.